

Bwrdd Hedfan Sioe Awyr Cymru - Amodau a Thelerau

Mae'r bwrdd hedfan ar agor i'r cyhoedd pan fyddant yn prynu tocyn. Mae'r tocyn yn rhoi hawl i'r deiliad fynd i mewn i'r ardal drwy gydol yr amserau agor a hysbysebir. Mae'r bwrdd hedfan yn ardal laswelltog mewn safle ardderchog ger y senotaff. Yr oriau agor yw 11am – 6pm ddydd Sadwrn, a 11am – 6pm ddydd Sul.

Bydd yr ardal yn cynnwys:

- Bar y mae'n rhaid talu am y diodydd
- Cyfleuster arlwyyo y mae'n rhaid talu amdano
- Toiledau da
- Seddi
- Ardaloedd wedi'u gorchuddio a chysgodol

1. Mynediad trwy docyn yn unig. Nid oes angen tocyn ar blant 3 oed ac iau. Gellir prynu tocynnau ymlaen llaw neu ar y diwrnod am bris uwch (os oes rhai ar gael o hyd - gwerthwyd pob un ymlaen llaw yn 2022).

2. Ni chaiff pobl ddod i'r digwyddiad os bydd stiwardiaid yn tybio bod rhywun dan ddylanwad alcohol neu sylwedd anghyfreithlon.

3. Cynhelir y gweithgaredd ar safle tir glas a gall y tir fod yn anwastad. Efallai y bydd heolydd a rampiau dros dro. Byddwch yn ofalus wrth gerdded ar y ffyrdd a'r rampiau hyn ac oddi arnynt neu wrth eu croesi mewn cadeiriau olwyn.

4. Mae'r tocyn yn rhoi hawl i chi fynd i mewn i'r safle eto yn ystod yr amserau agor cyhoeddedig os ydych yn dangos y band arddwrn priodol.

5. Ni chaniateir plant dan 16 oed oni bai eu bod yng nghwmni oedolyn.

6. Er mwyn diogelwch, peidiwch â dod ag eitemau gwydr, barbeciws, canhwyllau, fflaglau wedi'u cynnu neu alcohol i mewn i'r ardal.

7. Mae'r holl ddeiliaid tocynnau'n caniatáu i gael recordiad ffilm a sain ohonynt eu hunain fel aelodau o'r gynulleidfa.

8. Efallai y cynhelir archwiliad diogelwch.

9. Mae Cyngor Abertawe yn cadw'r hawl i wrthod mynediad i unrhyw berson a gofyn i unigolion adael y lleoliad os ceir unrhyw ymddygiad difrifol, peryglus, gwrthgymdeithasol neu ymddygiad annerbyniol arall.

10. Mae'n rhaid i bob mynychwr feddu ar docyn y mae'n rhaid ei ddangos ar ffurf papur neu e-docyn er mwyn cael eich derbyn i ardal y Bwrdd Hedfan.

11. Mae Cyngor Abertawe yn cadw'r hawl i wneud unrhyw addasiadau i'r manylion a hysbysebir ar gyfer y perfformiad.

12. Ni chaiff y tocyn ei gyfnewid ac ni roddir ad-daliad oni bai fod y digwyddiad cyfan yn cael ei ganslo. Rhoddir ad-daliadau o fewn un mis calendr o ddyddiad y digwyddiad a drefnwyd yn y man prynu gwreiddiol.

13. Dewch â digon o ddrillad sbâr cynnes a dwrglos oherwydd gall y tywydd newid yn gyflym ac efallai y bydd yn oer/wlyb. Gallwch ddod â chlustogau a rygiau os dymunwch.

15. Ni chaniateir cŵn, oni bai am gŵn tywys.